

## CYNGOR TREF PORTHMADOG



**18.30 – 19.00**

**Cyflwyniad gan Aled Davies a Sian Edith Jones, Pennaeth a Phennaeth Cynorthwyol Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant Cyngor Gwynedd**

Yn ychwanegol i'r ddau swyddog uchod daeth Dilwyn Morgan, aelod o gabinet Cyngor Gwynedd, sy'n gyfrifol am gefnogi pobl hŷn i gyflwyno'r polisi presennol ar ddarpariaeth gofal pobl hŷn. Eglurodd bod canolfan ddydd Cricieth wedi cau ers 6 mlynedd bellach a bod pethau wedi newid yn sylweddol ers hynny. Dydi'r Llywodraeth ddim yn ffafrio neilltuo pobl a rhoddir mwy a mwy o bwyslais ar helpu pobl i fod yn annibynnol yn hirach.

Dywedodd Aled Davies fod y sefyllfa'r un fath dros y sir ac yn rhan o raglen ehangach sy'n gweithredu newidiadau deddf y Llywodraeth yn 2014. Nododd bod y newidiadau yn golygu fod pobl yn gallu byw adref yn annibynnol mor hir â phosibl a bod y gwasanaeth yn canolbwyntio ar anghenion yr unigolyn yn hytrach na chynnig gwasanaeth "one size fits all". Mae timau cymunedol ymhob ardal bellach sy'n cefnogi pobl fregus a tydi gofal dydd canolog ddim yn apelio bellach gan fod angen gofal mwy hyblyg a bod y gofal hwnnw yn cael ei deilwra i anghenion yr unigolyn.

Mae'r Cyngor yn gallu prynu gwasanaeth annibynnol er mwyn cynnig mwy o ddewis o wasanaeth. Sonwyd am wasanaethau fel Clwb Cwmni; Cwmni Ffeind; a Eryri Cydweithredol sy'n cynnig gwasanaeth cludiant i wasanaethau mewn lleoliadau gwahanol. Cytunwyd bod pob cymuned yn wahanol gyda gofynion gwahanol a'i bod yn bwysig cryfhau'r arlwy sydd yn bodoli'n barod. Nodwyd bod aelodau lleol o Gyngor Gwynedd wedi bod yn rhan o'r trafodaethau pan yn penderfynu ar y newidiadau yma. Clywyd am lwyddiant Clwb Cinio Capel y Traeth; cinio cymdeithasol ym Morfa Bychan; Taro Deg yng Nghapel y Porth a Chroeso Cynnes yn y Ganolfan. Nid oedd y 3 swyddog yn ymwybodol o'r ddarpariaeth yma a byddant yn cysylltu'n fuan i gael mwy o wybodaeth gan y Cyngor Tref er mwyn llunio bas-data neu fap o'r ddarpariaeth sy'n cael ei gynnig mewn ardaloedd gwahanol.

### Cyfarfod Rheolaidd y Cyngor Tref Ebrill 2025

#### COFNODION

**302.4.25 Presennol:- Cynghorwyr :-** Trefor Jones; Jeremy Davies; Aled Griffith (Cadeirydd); Carol Hayes; Dr Melfyn Edwards; Gwilym Jones; Karena Owens; Alwyn Gruffydd; Michael Roberts

Marian Roberts ( Clerc); Elfyn Lewis ( darpar Clerc)

**Absennol :- Cynghorwyr :-** Llywelyn Rhys; Glenda Murray

**303.4.25 Ymddiheuriadau:- dim**

**304.4.25 Cadarnhau cywirdeb cofnodion Cyfarfod Llawn Mawrth 11 2025**

Cafwyd cofnodion Cyfarfod Llawn Mawrth 11 2025 yn gywir yn ôl cynnig Cyng Gwilym Jones, Cyng Jeremy Davies yn eilio.

**305.4.25 Adroddiad y Clerc**

**Trwsio cerrig wal Bryn Coffa** – nodwyd fod Alan G. Jones, yn garedig iawn, wedi gwrthod tâl am wneud y gwaith.

**Bodawen** – mae Arwel Lewis Jones, sy'n cynrychioli'r Cyngor Tref fel Cyfreithiwr a Phil Williams, sy'n cynrychioli'r Cyngor Tref fel Asiant Tir mewn trafodaethau efo National Grid i sicrhau'r cytundeb

gorau am iawndal teilwng am golli defnydd o Gae Chwarae Bodawen am rai blynyddoedd cyn bydd y Cadeirydd yn arwyddo'r ddogfen. Mae cytundeb iawndal am yr offer chwarae yn fater i'w drafod eto.  
**Harbwr 200** – llai o bobl ymhob cyfarfod felly wedi penderfynu cyfyngu'r gweithgareddau i un diwrnod yn unig a gadael i'r Clwb Hwyllo, Amgueddfa Forwrol a Rheilffordd Ffestiniog drefnu eu dathliadau eu hunain.

**Lloches bws Aldi** – y Clerc wedi derbyn cadarnhâd y bydd lloches bws newydd yn cael ei osod wrth ymyl Aldi yn yr wythnosau nesaf.

**Noson lansio sinema gymunedol** – cofnodwyd bod 3 o'r Cynghorwyr a'r Clerc am fynychu'r noson ar 12.4.25.

### **306.4.25                    Datgan diddordeb.**

Dim datganiad o ddiddordeb.

### **307.4.25                    CEISIADAU CYNLLUNIO**

#### **(a) Rhif Cais / Application No.: C25/0185/44/DT ( wedi ebostio 12.3.25)**

Lleoliad / Location: Llwyn Helyg Ffordd Y Borth, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9BB

Bwriad / Proposal: Estyniad ochr unllawr

Single storey side extension

**Penderfynwyd :- dim gwrthwynebiad**

#### **(b) Rhif Cais / Application No.: C25/0217/44/LL ( wedi ebostio 19.3.25)**

Lleoliad / Location: Edrin, 21 Stryd Fawr, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9LR

Bwriad / Proposal: Newid defnydd prif gartef (C3) i leyt gwyliau tymor byr (C6)

Change of use from main home (C3) to short-term holiday let (C6)

**Penderfynwyd :- gwrthwynebu** oherwydd y rhesymau canlynol:-

- mae'n groes i Erthygl 4
- mae'n gosod cysnail i geisiadau cyffelyb
- nid oes man parcio ar gyfer nifer o westeion

#### **(c) Rhif Cais / Application No.: C25/0228/44/DT ( wedi ebostio 26.3.25)**

Lleoliad / Location: 15 Pencyflog, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9LA

Bwriad / Proposal: Estyniad llawr cyntaf cefn arfaethedig.

Proposed rear first floor extension.

**Penderfynwyd :- dim gwrthwynebiad**

#### **(ch) Rhif Cais / Application No.: C25/0117/44/DT (wedi ebostio 28.3.25)**

Lleoliad / Location: Godre'r Graig, 1, Rhesdai Glanmorfa Ffordd Caernarfon, Tremadog, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9RW

Bwriad / Proposal: Dymchwel estyniad presennol ac adeiladu estyniad deulawr ar gyfer ystafell fwyta a chegin ac ystafell wely. Demolish present extension and rebuild a two storey extension for kitchen diner and bedroom.

**Penderfynwyd :- dim gwrthwynebiad**

#### **(d) Rhif Cais / Application No.: C25/0239/44/LL ( wedi ebostio 31.3.25)**

Lleoliad / Location: Greenacres Caravan Park Main Road, Morfa Bychan, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9YF

Bwriad / Proposal: Newid defnydd tir i ardal storio carafanau gan gynnwys gwaith peiranyddol, seilwaith a tirlunio cysylltiedig

Change of use of land to caravan storage area including associated engineering, infrastructure and landscaping works

**Penderfynwyd :- gwrthwynebu** oherwydd y rhesymau canlynol:-

- mae'n orddatblygiad
- mae'n amharu ar dai gyfagos
- mae'n creu llygredd sŵn
- mae'n creu llygredd nwyon peryglus o'r lorïau
- mae'n creu problemau mynediad a thraffic

### **MATERION CYFANSODDIADOL A STAFF**

#### **308.4.25 Diweddariad ar benodiad Clerc a Swyddog Ariannol Cyfrifol newydd.**

Croesawyd y Darpar- Glerc i'r cyfarfod ac fe'i llongyfarchwyd ar ei benodiad diweddar fel Clerc a Swyddog Ariannol Cyfrifol y Cyngor Tref. Bydd yn dechrau yn y swydd ar Fehefin 1af 2025.

#### **309.4.25 Llenwi Tabl Cydnabyddiaeth Ariannol 2025-2026**

**Penderfynwyd fel a ganlyn:-**

	<b>Penderfyniad Ebrill 2025</b>	<b>Cynnig / Eilio</b>
<b>Lwfans Cynghorwyr £150</b>	<b>£156 I bob aelod - dim treth</b>	<b>Gorfodol</b>
	<b>£52 Costau nwyddau traul</b>	<b>Gorfodol</b>
<b>£500 i aelodau Is Bwyllgor</b>	<b>Dim taliad</b>	Cyng Dr Melfyn Edwards Cyng Alwyn Gruffydd
<b>£500 i 5 aelod i gydnabod cyfrifoldebau penodol</b>	<b>Dim taliad</b>	Cyng Alwyn Gruffydd Cyng Dr Melfyn Edwards
	<b>* Lwfans mynychu £30</b>	Cyng Alwyn Gruffydd Cyng Carol Hayes
<b>Costau teithio Hyd at 10k milltir</b>	<b>Costau teithio Hyd at 10k milltir</b>	<b>Gorfodol</b>
<b>Costau teithio dros 10k milltir</b>	<b>Costau teithio dros 10k milltir</b>	<b>Gorfodol</b>
<b>Cynhaliaeth</b>	<b>Cynhaliaeth</b>	<b>Gorfodol</b>
<b>Llundain dros nos</b>	<b>Llundain dros nos</b>	<b>Gorfodol</b>
<b>Rhywle arall</b>	<b>Rhywle arall</b>	<b>Gorfodol</b>
<b>Gyda theulu/ffrind</b>	<b>Gyda theulu/ffrind</b>	<b>Gorfodol</b>
<b>lawndal am golled ariannol oherwydd presenoldeb</b>	<b>lawndal am golled ariannol oherwydd presenoldeb</b>	<b>Gorfodol</b>
<b>lawndal am golled ariannol oherwydd presenoldeb</b>	<b>lawndal am golled ariannol oherwydd presenoldeb</b>	<b>Gorfodol</b>
<b>Ad-dalu costau gofal plant ac oedolion dibynnol</b>	<b>Ad-dalu costau gofal plant ac oedolion dibynnol</b>	<b>Gorfodol</b>
<b>Taliad Pennaeth Dinesig - hyd at £1,500</b>	<b>Taliad Pennaeth Dinesig hyd at</b>	Cyng Carol Hayes Cyng Dr Melfyn Edwards

	<b>£1,500 – Ilai Treth Incwm</b>	
<b>Taliad Dirprwy Bennaeth - hyd at £500</b>	<b>Dim taliad</b>	Cyng Alwyn Gruffydd Cyng Dr Melfyn Edwards

\* Mae Lwfans Mynychu o £30 yn newydd ar gyfer 2025-2026 . Bydd y Clerc yn paratoi polisi ar ei gyfer erbyn y cyfarfod blynyddol ym mis Mai.

### **MATERION I'W DWYN GERBRON :-**

**310.4.25 Cyng Alwyn Gruffydd :-** Cynnig cysylltu â Chyngor Gwynedd ac Awdurdod Iechyd Betsi Cadwaladr i ofyn iddynt glirio'r tyfiant rhwng Ysbyty Alltwen â'r ffordd fawr oherwydd risg tân.

**Penderfynwyd :-** gweithredu ar y cynnig, Cyng Gwilym Jones yn eilio.

**311.4.25 Cyng Michael Roberts :-** cynnig gwneud cais i Gyngor Gwynedd i ganiatau cŵn yn rhan o'r Parc.

**Penderfynwyd :-** gwrthod y cynnig gan nad oedd eilydd iddo.

**312.4.25 Cyng Michael Roberts :-** cynnig gofyn i berchennog Capel y Garth i ddiogelu'r safle

**Penderfynwyd :-** gweithredu ar y cynnig, Cyng Alwyn Gruffydd yn eilio.

Cymerodd yr Is-Gadeirydd y gadair tra bu trafodaeth ynglyn â chynigion y Cadeirydd, Cyng Aled Griffith.

**313.4.25 Cyng Aled Griffith :-** cynnig holi Cyfoeth Naturiol Cymru :-

A oes cynllun i glirio'r giatau ar y ffosydd ger Cob Crwn yn dilyn stormydd y Gaeaf?

Beth yw cynlluniau at gyfer y tir tu ôl i Premier Inn ac a oes bosib gwneud scrîn naturiol o flodau gwyllt ac ati o gwmpas y safle?

**Penderfynwyd :-** gweithredu ar y cynnig, Cyng Jeremy Davies yn eilio

**314.4.25 Cyng Aled Griffith :-** Cynnig cysylltu â Chyngor Gwynedd i weld beth yw'r cynllun i ddod â'r nifer o lefydd bysiau sydd yn ymweld â Porthmadog yn ôl i'r nifer cyn cynllun iard bysiau trydannol Gwynedd. Roedd 8 o lefydd cyn man parcio newydd i fysiau trydanol dros nos. 3 erbyn hyn, gyda 1 bws parharol rhag ofn i un o'r bysiau trydan dorri i lawr, felly dim ond 2 o lefydd i fysiau sydd yn ymweld. Mae bysiau rail yn defnyddio manau parcio ceir neu yn parcio yn y stâd Ddiwydiannol.

**Penderfynwyd :-** gweithredu ar y cynnig, Cyng Jeremy Davies yn eilio

Dychwelodd y Cadeirydd, Cyng Aled Griffith, i gadeirio'r cyfarfod.

**315.4.25 Materion i'w dwyn gerbron y Cadeirydd unai er gwybodaeth neu i'w rhoi ar y Rhaglen ar gyfer y cyfarfod nesaf. Dyddiad cau Mai 13 2025 = Mai 3 2025, ( Rheolau Sefydlog 9 (b) " o leiaf deg diwrnod cyn cyfarfod y Cyngor".)**

- **Cyng Dr Melfyn Edwards** – cynnig holi'r Adran Cynllunio am ddiweddariad ar gors Borth y Gest
- **Cyng Dr Melfyn Edwards** – cynnig holi Cyngor Gwynedd am ddiweddariad ar leoliad y maes chwarae 3G arfaethedig
- **Cyng Michael Roberts** – cynnig holi Cyngor Gwynedd am sefyllfa'r peiriannau casglu arian ym meysydd parcio Borth y Gest a Heol y Parc.

**316.4.25 Gohebiaeth : Rhestr Aros am Ateb (copi ynghlwm).**

**Penderfynwyd :-** derbyn y wybodaeth ac ail yrru'r ohebiaeth at Hywyn Williams yn ôl cynnig Cyng Carol Hayes.

**GOHEBIAETH :**

317.4.25	ALED DAVIES C.G.	<b>Ymateb i 285.3.25 Derbyn gwahoddiad Penderfynwyd :-</b> derbyn y wybodaeth
318.4.25	CYFOETH NAT. CYMRU	<b>Tyfiant 'Japanese Knotweed' Cae Pawb Penderfynwyd :-</b> gadael y mater ar y bwrdd nes bod cadarnhâd wedi dod ynglyn â throsglwyddo perchnogaeth Cae Pawb.
319.4.25	GLYN WILLIAMS	<b>Cynnig cytundeb llungopiwr newydd</b> Eglurodd y Clerc fod costau llogi peiriant llungopïo wedi costio £477.60 yn 24-25 a'r llungopïo ei hun yn £24.02. Golyga hyn y byddai'r Cyngor Tref wedi gwario ymhell dros £2,000 ar gostau llungopïo dros gyfnod 5 mlynedd y cytundeb. Awgrymodd y byddai'n well defnydd o arian i brynu llungopiwr newydd pan ddaw'r cytundeb i ben yn 2027 yn hytrach na pharhau gyda'r cytundeb. <b>Penderfynwyd :-</b> Y Clerc i egluro'r uchod i Glyn Williams ac i ddod â'r cytundeb i ben cyn Chwefror 2027.
320.4.25	GARETH GRIFFITHS	<b>Ymateb i 273.3.25 trefniant Nadolig Penderfynwyd :-</b> derbyn y wybodaeth
321.4.25	IWAN AP TREFOR C.G.	<b>Ymateb i 275.3.25 cais am bwyntiau gwefru maes parcio Llyn Bach Penderfynwyd :-</b> derbyn y wybodaeth
322.4.25	BETHAN PRICE	<b>Diweddariad Grŵp Cleifion Hwb Iechyd Eifionydd</b> Clywyd fel yr oedd cleifion yn dal i gael trafferthion i gysylltu gyda'r feddygfa – yn enwedig mewn sefyllfa o argyfwng. Cytunwyd nad yw'r hwb yn cyflawni ei ddyletswydd gwreiddiol ac na chafwyd unrhyw welliant yn y gwasanaeth ers ei sefydlu. Cytunwyd hefyd nad yw aelodau'r hwb yn atebol i neb ac y dylai o leiaf un Cynghorydd Cymuned fod yn aelod o'r hwb fel y gellir pasio pryderon ymlaen drwyddo ef neu hi. <b>Penderfynwyd :-</b> ysgrifennu'n ôl i ddatgan yn gryf anfodlonrwydd y Cyngor Tref gyda'r gwasanaeth mynediad ac i drosglwyddo'r wybodaeth uchod yn ôl cynnig Cyng Dr Melfyn Edwards, Cyng Gwilym Jones yn eilio.
323.4.25	ANDREW GREGSON	<b>Gwaharddiadau parcio Penderfynwyd :-</b> derbyn y wybodaeth
324.4.25	UN LLAIS CYMRU	<b>Cydnabyddiaeth ariannol 2025-26</b>

		<b>Penderfynwyd :-</b> derbyn y wybodaeth
325.4.25	CRICIETH CLEANING	Glanhau llochesi bws <b>Penderfynwyd :-</b> derbyn y wybodaeth a chadarnhau manylion y cytundeb glanhau.

**326.4.25 MATERION ARIANNOL :****Cymeradwyo Ffurflen Flynyddol ac Archwiliad 2022-2023 (copi ynghlwm)**

**Penderfynwyd :-** cymeradwyo Ffurflen Flynyddol 2022-2023 yn ôl cynnig Cyng Gwilym Jones, Cyng Dr Melfyn Edwards yn eilio.

**Cymeradwyo Ffurflen Flynyddol ac Archwiliad 2023-2024 (copi ynghlwm)**

**Penderfynwyd :-** cymeradwyo Ffurflen Flynyddol 2023-2024 yn ôl cynnig Cyng Gwilym Jones, Cyng Dr Melfyn Edwards yn eilio.

**Derbyniadau :**

H.S.B.C.	Llog Banc Chwefror Mawrth 2025	£47.67
CYNGOR GWYNEDD	Ad-daliad torri gwair/llwybrau 2024	£1,064.50

**Biliau i'w talu :-**

**Ychwanegwyd anfoneb 9 a 10 i'r rhaglen wreiddiol ac awdurdodwyd y taliadau canlynol yn ôl cynnig Cyng Alwyn Gruffydd, Cyng Dr Melfyn Edwards yn eilio:-**

1	Clerc	Llinell ffôn a Wê Mawrth 2025	£67.93
2	Clerc	Cyflog Clerc Mawrth 2025	£1,597.44
3	H.M.R.C.	Treth Incwm Clerc Mawrth 2025	£399.36
4	S.L.C.C.	Tâl aelodaeth 2025-2026	£300.00
5	CYNGOR GWYNEDD	Difa pla Cae Pawb	£330.00
6	Y GANOLFAN	Clwb Ieuenctid 16.1.25 i 27.3.25	£412.50
7	GEIRIAU GWYN	Cyfieithu ar y pryd 5.3.25 a 19.3.25	£288.00
8	CYMRU 1 LTD	Cynnal y wefan 2025-2026	£546.00
9	SWYDDFA BOST	16 x stamp 2il ddosbarth Taliad cerdyn 1.4.25	£13.60
10	YR WYLAN	4 x hysbyseb ( Torri gwair a swydd Clerc)	£80.00

( Mae copi o bob sic ar gael i'w archwilio ar gyfer awdit/rheolau ariannol)

Daeth y cyfarfod i ben am 20.25

Marian Roberts

( Clerc )

11.4.25